GWNEUD GWAHANIAETH

Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith – Canllaw i Lywodraethwyr yng Nghymru

Bwriedir i'r canllaw hwn helpu cyrff llywodraethu i ddeall a datblygu eu rôl wrth helpu penaethiaid ac uwch dimau rheoli gyda'r strategaeth ar gyfer rhaglenni gyrfaoedd a'r byd gwaith yn eu hysgolion.

Pam mae'r Canllaw Gyrfaoedd a'r Rhaglenni Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith yn bwysig?

O 1 Awst 2008, mae athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, colegau a darparwyr dysgu eraill wedi gorfod seilio eu darpariaeth Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith ar *Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru.*

Mae'n rhaid i gorff llywodraethu/pwyllgor rheoli ac uwch dîm rheoli'r darparwr dysgu fod yn bennaf gyfrifol am y ddarpariaeth Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith ac am gydlynu'r ddarpariaeth[1]. Bydd pob darparwr dysgu yn penderfynu sut y bydd rolau a chyfrifoldebau Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith yn cael eu rhannu ymysg ei staff, er mwyn gwneud y defnydd gorau o'u sgiliau a'u harbenigedd.

> *Mae cyfarwyddyd ar yrfaoedd yn bwysig ar gyfer symudedd cymdeithasol. Os yw pobl ifanc a'u teuluoedd yn gwybod mwy am y dewis eang o yrfaoedd sydd ar gael i bobl gyda'r cymwysterau cywir, bydd ganddynt syniad cliriach o'r llwybrau at swyddi gwell.*
>
> ***Good Career Guidance – Gatsby 2014 (Cyfieithiad)***

Dylai rhaglenni gyrfaoedd a'r byd gwaith gynnwys cyfuniad o addysg ar yrfaoedd, sy'n cael ei ddarparu fel rhan o'r cwricwlwm, a gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd diduedd ar

[1] *Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith: Rolau a Chyfrifoldebau*

yrfaoedd. Mae canllawiau effeithiol ar yrfaoedd yn helpu i godi dyheadau, gwella cymhelliant a goresgyn rhwystrau at lwyddiant.

Beth ddylai'r corff llywodraethu ei wneud:

Gan ystyried canllawiau statudol, dylai'r corff llywodraethu sicrhau bod Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith yn cael eu darparu i bob dysgwr, gan sicrhau ar yr un pryd bod yr holl wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd:

- Yn cael eu cyflwyno mewn ffordd ddiduedd.
- Er budd gorau'r dysgwr.
- Yn cynnwys gwybodaeth am yr ystod o opsiynau addysg neu hyfforddiant sydd ar gael, gan gynnwys prentisiaethau a llwybrau galwedigaethol eraill.
- Nad yw'n ceisio hyrwyddo buddiannau neu uchelgeisiau unrhyw ysgol, sefydliad neu unigolyn arall yn groes i fudd gorau'r dysgwr.

Dylai gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd fod ar gael i bob dysgwr, fel rhan o'i Lwybr Dysgu 14-19.

Mae'r **Good Career Guidance - Gatsby 2014**, yn ceisio nodi arferion da o ran cyfarwyddyd gyrfaoedd, ac mae'n argymell y dylai fod gan *bob ysgol aelod o'u corff llywodraethu sydd â'r cylch gwaith i annog ymgysylltu â chyflogwyr a chymryd diddordeb strategol mewn cyfarwyddyd gyrfa.*

Pa gyfraniad y gall llywodraethwyr ei wneud?

Gyda'i gilydd ac yn unigol, mae llywodraethwyr yn cyfrannu gwahanol fathau o sgiliau a gwybodaeth sy'n gallu helpu i wella ansawdd y ddarpariaeth gyrfaoedd, gan gynnwys:

- Cysylltiadau defnyddiol i gefnogi gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr mewn ysgolion a cholegau.
- Ymwybyddiaeth o anghenion a disgwyliadau myfyrwyr, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.
- Dealltwriaeth o'r farchnad lafur leol a'i chyfleoedd.
- Cysylltiadau eraill yn y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ac yn y gymuned, y gellir eu defnyddio i greu cyfleoedd i fyfyrwyr.
- Profiad personol o gynllunio a datblygu gyrfa mewn cyflogaeth a bywyd fel oedolyn.

- Sgiliau busnes, ariannol ac adnoddau dynol i gefnogi gwaith cynllunio strategol, dosbarthu adnoddau yn effeithiol, datblygu, adolygu a gwerthuso'r gweithlu.

Pa gamau y gallai'r corff llywodraethu eu hystyried?

- Annog yr ysgol i weithio i ennill neu gadw Marc Gyrfa Cymru er mwyn ennyn hyder yn y ddarpariaeth gyrfaoedd a chodi proffil yr ysgol.
- Sicrhau bod y staff priodol yn goruchwylio darpariaeth gyrfaoedd a'r byd gwaith yn yr ysgol, er enghraifft drwy sicrhau bod y polisi gyrfaoedd wedi'i ddiweddaru a monitro effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn erbyn cynllun cyflawni/datblygu blynyddol yr ysgol.
- Adroddiadau adolygu sy'n sicrhau bod dulliau ymyrryd yn cael eu cofnodi'n ganolog, bod ffrydiau cyllid, er enghraifft y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael eu defnyddio'n effeithiol a bod data ar gyrchfannau yn cael eu hymgorffori fel rhan o ddefnydd cyffredinol yr ysgol o godi lefelau cyrhaeddiad, cyflawniad a chyfranogiad.
- Nodi llywodraethwr cyswllt, er enghraifft cyflogwr lywodraethwr lleol, i gefnogi a herio'r staff gyrfaoedd / ABCh.
- Nodi cyfleoedd priodol i drafod eu profiad hwy o'r ddarpariaeth gyrfaoedd ysgolion gyda'r dysgwyr e.e. mynychu digwyddiadau neu gymryd rhan yng nghyfarfodydd cyngor yr ysgol.
- Annog staff gyrfaoedd mewn ysgolion i ennill cymwysterau perthnasol e.e. Tystysgrif Arweinyddiaeth Gyrfaoedd y Sefydliad Datblygu Gyrfa.

Y Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith

Mae Gyrfa Cymru yn cynorthwyo ysgolion a cholegau yng Nghymru i adolygu a gwella eu darpariaeth gyrfaoedd drwy ddarparu cymorth gyda chynnal archwiliad yn erbyn y Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith, hunanwerthusiad yn erbyn cwestiynau allweddol Estyn a chynllunio datblygiadau. Mae'r darparwyr dysgu hefyd yn cael cynnig cymorth i weithio tuag at Nod Gyrfa Cymru, sy'n wobr sy'n cydnabod gwelliannau parhaus i raglenni gyrfaoedd a'r byd gwaith.

Mae gan gynghorwyr gyrfa rôl benodol i helpu myfyrwyr difreintiedig ac agored i niwed gyda chyfnodau o newid a'r rhai sydd mewn perygl o ddod yn NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).

Mae cyngor a chyfarwyddyd wyneb yn wyneb, sy'n cael ei ddarparu gan unigolion o fyd gwaith, cyn-fyfyrwyr a mentoriaid, yn ogystal â chynghorwyr gyrfa, yn cael ei ystyried yn bwysig iawn.

Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gyflogwyr, ysgolion ac eraill gydweithio i ysbrydoli pobl ifanc ynglŷn â'r byd gwaith. Mae'n hynod gefnogol o fentrau sy'n hyrwyddo hyfforddeiaethau, prentisiaethau, menter, cyflogadwyedd, ymwybyddiaeth o yrfaoedd STEM, gallu ariannol a gwirfoddoli.

Estyn – sut y bydd darpariaeth Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith darparwr dysgu yn cael ei harolygu?

Yn ystod arolwg gan Estyn,[2] bydd y tîm arolygu yn ystyried ansawdd y gofal, cymorth a chyfarwyddyd sy'n cael eu darparu. Byddant yn gwerthuso i ba raddau y mae'r darparwr dysgu yn galluogi mynediad at ystod eang o wybodaeth, a pha mor dda maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau arweiniad. Bydd angen i Ddarparwyr addysg neu hyffoddiant allu dangos eu bod yn darparu mynediad at wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd i'r dysgwyr a bod unrhyw wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd a roddir yn cael eu cyflwyno mewn ffordd ddiduedd.

Roedd **Penderfyniadau Gwybodus: Gweithredu'r Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith 2012 Estyn** yn argymell y dylai ysgolion:

- *Wella rhan llywodraethwyr yng nghynllunio strategol GBG*

[2] *Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith: Swyddogaethau a Chyfrifoldebau*

Deall Rhaglen Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith eich Ysgol

Mae gan ysgolion y rhyddid i ddatblygu a chyflwyno rhaglen gyrfaoedd sy'n cyflawni anghenion pob un o'u myfyrwyr, a sicrhau ar yr un pryd bod gweithgareddau'n cael eu cysoni â'r Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith.

Gall model cyflawni sy'n cynnwys mynediad at gyfarwyddyd diduedd ar yrfaoedd, ymgysylltiad â chyflogwyr a gweithgareddau cyfoethogi ysgolion, sy'n helpu i gysylltu pynciau'r cwricwlwm i'r byd gwaith, wneud gwahaniaeth mawr i berfformiad ysgol.

Elfennau allweddol system sydd wedi'i chynllunio'n dda yw:

- **Arweinyddiaeth a rennir** – y llywodraethwyr a'r uwch dîm rheoli sy'n pennu'r weledigaeth ar gyfer darpariaeth gyrfaoedd yr ysgol (sydd wedi'i chysylltu ag ethos a chenhadaeth yr ysgol a darparu arweiniad a chyfeiriad strategol). Mae'r arweinwyr canol yn sicrhau cyflawniad effeithiol o ddydd i ddydd. Mae pob aelod o staff perthnasol (athrawon pynciau, tiwtoriaid ac yn y blaen) yn gyfrifol am eu cyfraniadau eu hunain.
- **Cyfathrebu** – mae'r myfyrwyr, y rhieni a'r staff yn gwybod pa gymorth sy'n cael ei ddarparu a sut i gael mynediad ato. Mae partneriaid allanol yn gwybod beth sy'n digwydd a sut y gallant gyfrannu.
- **Llwybrau mynediad lluosog** – mae'r llwybrau hyn yn cael eu sicrhau drwy lwybrau'r cwricwlwm (e.e. ABCh, mewnbwn pynciau, gweithgareddau cyfoethogi, profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith, ac ar-lein) a llwybrau cymorth i fyfyrwyr (e.e. cynlluniau mentora a hyfforddi, y system Fewnol, a/neu'r system diwtora, sesiynau a chlinigau gyrfaoedd galw heibio).
- **Cydgysylltedd** - gwneir cysylltiadau rhwng y llwybrau darpariaeth amrywiol er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf.
- **Myfyrgarwch** - mae'r system yn cael ei hadolygu a'i gwerthuso er mwyn cefnogi gwelliannau parhaus. Ystyrir bod archwiliad a hunanwerthusiad blynyddol yn erbyn cwestiynau allweddol Estyn yn arfer da.
- **Didwylledd** - mae'r ysgol yn cydnabod bod addysg a chanllawiau ffurfiol ar yrfaoedd ond yn rhan fechan o'r dylanwadau gyrfaoedd ar bobl ifanc. Felly, mae'r ysgol yn ceisio sicrhau bod myfyrwyr unigol yn gallu defnyddio mewnbwn arall yr ysgol (e.e. gweithgareddau allgyrsiol a chyfoethogi) a dylanwadau a syniadau o'r tu allan i'r ysgol (e.e. teulu, ffrindiau).

Cwestiynau y gall Llywodraethwyr eu Gofyn i'r Uwch Dîm Rheoli

Mae pob cwestiwn yn cynnwys argymhellion ac awgrymiadau:

1. **A ydym yn cyflawni ein dyletswyddau statudol o ran arweiniad ar yrfaoedd?**
    - Pa mor llwyddiannus mae'r ddarpariaeth yn cyfateb â gofynion deddfwriaeth, meini prawf arolygu Estyn ac argymhellion perthnasol Llywodraeth Cymru?
    - A oes gan yr ysgol bolisi cyfarwyddyd gyrfaoedd ar waith sy'n cael ei adolygu gan y corff llywodraethu neu bwyllgor llywodraethwyr priodol (yn ddelfrydol bob dwy flynedd neu yn unol â chynllun datblygu'r ysgol) ac yn adlewyrchu'r gofynion cenedlaethol a'n huchelgeisiau ni?
    - A oes gan yr ysgol aelod o'r Uwch Dîm Rheoli sy'n bennaf gyfrifol am arwain a rheoli darpariaeth gyrfaoedd yr ysgol?
    - A oes gan yr ysgol aelod o'r Uwch Dîm Arwain sy'n gyfrifol am gefnogi DPP staff gyrfaoedd yr ysgol?

2. **Pa wahaniaeth mae perfformiad yr ysgol yn ei wneud i gyrhaeddiad sy'n gysylltiedig â gyrfa a chynnydd ein myfyrwyr?**
    - A yw'r ysgol a'r corff llywodraethu wedi dadansoddi'r data ar hynt disgyblion ar ddiwedd CA4 a CA5 dros y 3-5 blynedd ddiwethaf?
    - A yw'r ysgol a'r corff llywodraethu yn gwerthuso data yn rheolaidd ar ansawdd ac effaith darpariaeth gyrfaoedd yr ysgol a'u defnyddio fel sail i welliannau?
    - Sut mae'r ysgol a'r corff llywodraethu yn hyrwyddo'r ddarpariaeth gyrfaoedd i ddisgyblion, eu teuluoedd, partneriaid addysg lleol a chyflogwyr?

3. **Pa gyfraniad mae ein darpariaeth gyrfaoedd yn ei wneud at effeithiolrwydd a gwelliant yr ysgol?**
    - A yw cynllun cyflenwi gyrfaoedd blynyddol yr ysgol yn nodi'n glir sut y bydd gwaith gyrfaoedd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r nodau yng nghynllun gwella'r ysgol?
    - Ar ba argymhellion, a wnaed gan Estyn, y mae darpariaeth gyrfaoedd yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol?

4. **A ydym wedi dyrannu adnoddau digonol i gyflawni ein dyletswydd ac a ydym yn cael gwerth am arian?**
    - Beth yw cost y ddarpariaeth gyrfaoedd a'r byd gwaith i'r ysgol?
    - Sut mae'r ysgol yn rheoli ei Chytundeb Partneriaeth gyda Gyrfa Cymru?
    - Beth yw'r broses gyllidebu ar gyfer gyrfaoedd?
    - Sut mae'r ysgol yn trefnu cyfraniad partneriaid eraill?

Rhestr Termau

ABCh	Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd. Mae gan ysgolion eu hamrywiadau eu hunain o'r term hwn. Mae'n cyfeirio at raglen

	astudiaeth a gynlluniwyd i hybu lles personol a chymdeithasol a 'dysgu am oes'. Mae'n bosibl cyflawni agweddau ar addysg gyrfaoedd drwy ABCh, naill ai mewn ffordd integredig neu fel modiwlau unigol.
Addysg Gyrfaoedd	Rhaglen flaengar, wedi'i chynllunio, o weithgareddau dysgu sy'n helpu pobl ifanc i gynyddu eu hunanymwybyddiaeth, ymchwilio i'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i benderfynu ar eu cynlluniau gyrfa, a gweithredu'r cynlluniau hyn.
AGCAG	Addysg, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd
Annibynnol	Yn y cyd-destun hwn, mae annibynnol yn golygu allanol i'r ysgol.
Byd Gwaith	Nid ar gyfer cyflogaeth â thâl yn unig. Mae cyfleoedd gwirfoddoli a chyfranogiad cymunedol yn cyfrannu at ddatblygiad sgiliau gwaith pobl ifanc.
Cyflogadwyedd	Mae unigolyn ifanc yn gyflogadwy os yw'n meddu ar y sgiliau a'r adnoddau i ddod o hyd i waith a chynnal ei hun mewn gwaith. Nid yw cyflogadwyedd ond yn golygu meddu ar y sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr - mae'n golygu meddu ar y sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt ac sy'n galluogi pobl ifanc i gyflawni eu huchelgeisiau yn y eu bywyd gwaith.
Cymwyseddau Rheoli Gyrfa	Mae angen sgiliau rheoli gyrfa ar bobl ifanc i'w galluogi i reoli eu gyrfaoedd eu hunain - cymhelliant, gwneud penderfyniadau, gwytnwch, hunanymwybyddiaeth, ymroddiad ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd. Mae angen i raglen gyrfaoedd a'r byd gwaith yr ysgol helpu pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau hyn.
Diduedd	Nid yw diduedd yn golygu bod yn niwtral. Mae'n cyfeirio at roi buddiannau'r unigolyn ifanc cyn unrhyw ystyriaeth arall.
Dyletswydd Cydraddoldeb	Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn cynnig diogelwch i unigolion a grwpiau a allai, fel arall, brofi stereoteipio, gwahaniaethu neu ragfarn mewn unrhyw ran o'u bywydau yn cynnwys eu gyrfaoedd a'u gwaith. Y 'nodweddion gwarchodedig' sy'n berthnasol i bobl ifanc yw rhyw, hil, anabledd, crefydd neu gredo, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth. Mae'n rhaid i ysgolion gyhoeddi gwybodaeth am gydraddoldeb unwaith y flwyddyn o leiaf a phennu eu hamcanion cydraddoldeb o leiaf bob pedair blynedd. Mae'n hollbwysig bod perfformiad y ddyletswydd arweiniad gyrfaoedd yn cael ei hategu gan y ddyletswydd cydraddoldeb.
Dysgu Cysylltiedig â Gwaith	Dysgu cysylltiedig â gwaith yw dysgu a, ar gyfer a thrwy waith. Mae dysgu **am** waith yn hybu dealltwriaeth economaidd a diwydiannol. Mae dysgu **ar gyfer** gwaith yn hybu ymwybyddiaeth o yrfaoedd a chyflogadwyedd. Mae dysgu **drwy** waith yn hybu'r defnydd o fyd gwaith fel adnodd a chyd-destun perthnasol ar gyfer dysgu ym mhob pwnc.
Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd	Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd diduedd sy'n helpu pobl ifanc i wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â llwybrau gyrfaoedd

Gyrfaoedd	
Gyrfa	Y diffiniad sylfaenol o yrfa yw'r patrwm o swyddi a rolau y bydd unigolyn yn eu cael yn ystod eu bywyd gwaith. Mae'r diffiniad hwn yn cyfeirio at y wybodaeth sy'n cael ei chofnodi fel arfer ar CV unigolyn. Byddai diffiniad ehangach a mwy holistaidd yn cynnwys sut mae unigolyn yn teimlo am y profiadau maent wedi'u cael a'r ffordd maent yn effeithio ar eu bywyd yn ei gyfanrwydd.
Menter	Mae dangos menter a bod yn entrepreneuraidd yn rhinweddau a sgiliau allweddol sy'n galluogi unigolion i gyfrannu at iechyd yr economi, ond sydd hefyd yn eu helpu i gynllunio a rheoli eu bywydau gwaith eu hunain.
Mentora	Mae mentora yn rhaglen wedi'i chynllunio lle bydd unigol mwy profiadol yn helpu un neu fwy o unigolion profiadol i ddatblygu neu wneud cynnydd gyda'u dysgu neu waith.
Prentisiaethau	Mae prentisiaeth yn fframwaith hyfforddiant a chyflogaeth lle bydd unigolyn yn cael profiad ac yn dysgu'r wybodaeth, y sgiliau a'r nodweddion sydd eu hangen arnynt i sefydlu eu hunain mewn galwedigaeth, masnach neu faes gwaith arall. Mae'r prentisiaethau ar lefelau anhawster gwahanol: canolraddol (lefel 2), uwch (lefel 3) ac uchaf (lefel 4+).
STEM	Term cryno am wyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg. Mae diwydiannau sy'n gysylltiedig â STEM yn hollbwysig i lwyddiant yr economi ac maent yn ffocws ymdrech i oresgyn y broblem o brinder gweithwyr.
UDRh	Uwch Dîm Rheoli. Mae'n bwysig bod aelod o'r UDRh yn bennaf gyfrifol am waith gyrfaoedd yr ysgol a'u bod yn gallu sicrhau bod yr ysgol yn darparu'r lefelau priodol o gymorth i bob myfyriwr, ond yn arbennig myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig, plant sy'n derbyn gofal, gofalwyr ifanc, myfyrwyr ag anghenion addysgol arbennig a myfyrwyr y mae'r ysgol yn derbyn Grant Amddifadedd Disgyblion ar eu cyfer.

Gwybodaeth Bellach

- **Llywodraeth Cymru (2012)** ***Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith: Swyddogaethau a Chyfrifoldebau*** https://www.careerswales.com/prof/upload/pdf/SWYDDOGAETHAU_A_CHYFRIFOLDEBAU.pdf
- **Llywodraeth Cymru (2008)** ***Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith: Fframwaith i Bobl Ifanc 11-19 Oed yng Nghymru*** http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130722-careers-world-of-work-cy.pdf
- **Llywodraeth Cymru (2008)** ***Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith: Canllaw Ategol ?*** **https://www.careerswales.com/prof/upload/pdf/careersworksupplementaryguidance-e.pdf**
- **Estyn (2012)** ***Penderfyniadau Gwybodus: Gweithredu'r Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith 2012*** https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Penderfyniadau%20gwybodus%3A%20Gweithredu%C3%A2%E2%82%AC%E2%84%A2r%20fframwaith%20Gyrfaoedd%20a%C3%A2%E2%82%AC%E2%84%A2r%20Byd%20Gwaith%20-%20Hydref%202012.pdf

- **Gatsby (2014):** ***Good Career Guidance***
  http://www.gatsby.org.uk/uploads/education/reports/pdf/gatsby-sir-john-holman-good-career-guidance-2014.pdf

Addaswyd o : ***'Careers Guidance: Making All the Difference – A Guide for Governors' - Career Development Institute (CDI) Mai 2014***